

Merthyr Tudful
Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (2016-2031)

ARCHWILIAD

www.merthyr.gov.uk/ldpexamination

AGENDA

ar gyfer

Sesiwn Gwrandawriad 1 ar 25 Mehefin 2019 am 10:00

MATER 1: PARATOAD, GWELEDIGAETH A NODAU'R CYNLLUN

Sylwadau agoriadol a chyflwyniadau

Datganiad agoriadol oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

1.1. Gofynion paratoi a threfniadol

- a. A gafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi a'r Cynllun Ymglymiad Cymunedol cytunedig?
 - i. Fel yn Rheoliad 9(6)¹, a oes yna seiliau rhesymol i gredu fod unrhyw wyrddroadau heb fod yn debygol o ragfarnu cyfle person i gyfranogi yn y broses o wneud cynlluniau ²?
 - ii. A roddwyd cyfle teg i randdeiliaid wneud sylwadau ar y Strategaeth a Ffafir a'r Cynllun Adnau yn ystod y cyfnodau ymgynghori.
- b. A yw'r Cynllun wedi bod yn amodol ar Werthusiad Cynaliadwy (GC) / Asesiad Amgylcheddol Strategol digonol, gydag effeithiau arwyddocaol pethau amgen dynodedig ar yr amgylchedd wedi eu dynodi, disgrifio a gwerthuso oddi fewn i Adroddiad GC a'i Adendwm, ac a gafodd effeithiau Iaith Gymraeg eu hasesu'n ddigonol ³?
- c. A yw'r Cynllun wedi bod yn amodol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd digonol?
- d. A yw'r dystiolaeth ⁴ yn arddangos fod dyletswyddau statudol a gyflwynwyd i'r Cyngor o dan ddeddfwriaeth arall wedi cael eu hintegreiddio i'r broses creu cynllun, gan gynnwys:
 - i. Dyletswydd Llesiant ⁵, a
 - ii. Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ⁶?
- e. A yw'r Cynllun yn cyfeirio at y polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (PPC) a Chynllun Gofodol Cymru?
- f. A yw'r Cynllun yn cyfeirio at gynlluniau a strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys:
 - i. Cynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023
 - ii. Cynllun Trafnidiaeth Leol ar gyfer Cymoedd De-ddwyrain Cymru
 - iii. Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a
 - iv. Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig awdurdodau cymdogol?

¹ O Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)

² Adroddiad Ymgynghoriad y Cynllun Adnau 2018 [SD14] paragraffau 8.8-8.9.

³ Gweler nodyn atodol yr Arolygydd ar wrandawriadau 1 a 2

⁴ Yn cynnwys Adroddiad Ymgynghoriad Asesiad Llesiant Cwm Taf [SD54] a Phapur Briffio Asesiad [ED007b]

⁵ Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, adran 3

⁶ Deddf Cydraddoldeb 2010, adran 149

1.2. Materion, gweledigaeth a nodau allweddol

- a. A yw'r Cynllun wedi gafael ym materion defnydd tir allweddol a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys 'meysydd o bryder' a amlinellwyd yn Adroddiad Arolwg 2016 ⁷?
- b. A yw'r weledigaeth a'r nodau'n gyson ag Egwyddorion Cynllunio Allweddol ac a fyddant yn cyfrannu at Ganlyniadau Creu Lleuedd Cenedlaethol Cynaliadwy ?

1.3. Unrhyw faterion eraill

⁷ Adroddiad Arolwg 2016 [SD20] paragraff 2.2